RR10 - Amgueddfeydd ac Orielau Celf

(Version 08/02)

Cynnwys

	Tudalen
Am y cyhoeddiad hwn	1
Amcanion	2
Gofynion cyffredinol ar gyfer statws elusennol	2
Celfyddyd	3
Pwyso a mesur teilyngdod ac "arbenigwyr"	3
Gwybodaeth bellach	3
Effaith yr arweiniad hwn ar elusennau sy'n bodoli	4
Effaith yr arweiniad hwn ar elusennau sy'n rhoi grantiau	4
Atodiad A - Canllawiau pellach	5
Atodiad B - Crynodeb o'r gyfraith berthnasol sy'n ymwneud ag amgueddfeydd ac orielau celf	14

Am y cyhoeddiad hwn

1. Mae amgueddfeydd ac orielau celf yn gwneud cyfraniad hanfodol i ddiwylliant a threftadaeth y genedl. O'r sefydliadau cenedlaethol i'r amgueddfeydd ac orielau celf rhanbarthol a lleol, maen nhw'n boblogaidd ac yn werthfawr iawn. Ond yn ogystal â bod yn llefydd o addysg, maen nhw hefyd yno i ni eu mwynhau. Cynhaliodd y Comisiwn Elusennau ei adolygiad i annog trafodaeth a chyfnewid syniadau am werth addysgol amgueddfeydd ac orielau celf a materion ymarferol sy'n codi wrth ystyried eu statws elusennol.

2. Rydym yn awyddus i hybu haelioni cyfranwyr ac asbri a chraffter y sectorau cyhoeddus a phreifat, y mae sector y celfyddydau yn dibynnu arnynt i raddau helaeth. Ni ddylai ein harweiniad dynnu oddi wrth ein hanogaeth hyd yn oed pan fyddwn yn amlinellu materion sy'n ymwneud ag annibyniaeth a budd preifat.

3. Mae'r cyhoeddiad yn rhoi arweiniad, ac yn arbennig ein barn ynglŷn â'r angen i amgueddfa neu oriel gelf fodloni maen prawf teilyngdod er mwyn cael eu cydnabod fel cyrff elusennol. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad cyhoeddus a arweiniodd at yr arweiniad hwn.

4. Nid yw'r arweiniad hwn yn ymdrin â chasgliadau sy'n ymwneud â dibenion ymchwil yn unig na chasgliadau sy'n ymwneud yn benodol â hyrwyddo syniadau a phropaganda gwleidyddol.

5. Nid yw'r arweiniad hwn yn cynnig unrhyw sylwadau ar nifer yr amgueddfeydd ac orielau celf mewn unrhyw ardal arbennig neu nifer yr amgueddfeydd ac orielau celf sy'n ymwneud â'r un pwnc. Mae'r rhain yn faterion i bob sefydliad eu trafod, ond mae'n amlwg y byddant am ystyried a fyddai modd i'w dibenion elusennol gael eu cyflawni yn fwy

effeithlon neu effeithiol trwy gydweithio fel un corff er mwyn osgoi dyblygu ymdrech a gwastraffu adnoddau.

Amcanion

6. Mae sefydlu a chynnal amgueddfa a/neu oriel gelf er budd y cyhoedd yn amcan elusennol. Mae hybu celfyddyd a hyrwyddo addysg hefyd yn amcanion elusennol amlwg. Rhaid i'r amcan a fynegir adlewyrchu'n fanwl gywir ddibenion sefydliad. Felly gallai sefydliad fynegi ei amcan mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol[1] yn dibynnu ar ei ddibenion:

- "sefydlu a chynnal amgueddfa a/neu oriel gelf er budd y cyhoedd".
- "hybu celfyddyd trwy sefydlu a chynnal [amgueddfa] [oriel gelf]".
- "hyrwyddo addysg trwy sefydlu a chynnal amgueddfa"[2].
- "hyrwyddo addysg yn y celfyddydau trwy sefydlu a chynnal amgueddfa gelf neu oriel gelf"[2].

Gofynion cyffredinol ar gyfer statws elusennol

7. Daethom i'r casgliad y bydd rhaid i amgueddfeydd ac orielau celf, er mwyn bod yn elusennol, ddangos bod eu casgliadau neu arddangosion -

(i) **wedi'u sefydlu er budd y cyhoedd**, hynny yw:

- maen nhw'n darparu digon o fynediad i'r cyhoedd;
- mae unrhyw fudd preifat a gaiff unigolion yn atodol ac wedi'i reoli'n briodol;
- nid ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion anelusennol, fel masnachu[3]; a

(ii) **yn bodloni maen prawf teilyngdod**, hynny yw, mae digon o dystiolaeth y bydd casgliadau ac arddangosion a'r defnydd a wneir ohonynt naill ai'n ad dysgu meddyliau'r cyhoedd y mae'r amgueddfa neu'r oriel gelf yn bwriadu ei wasanaethu, neu sydd o leiaf yn gallu gwneud hynny. Yr hyn a gyfleir i'r cyhoedd yw syniad, emosiwn neu brofiad sy'n goleuo ac sydd o werth iddynt, neu sydd â'r gallu i fod o werth iddynt.

---

[1] neu ffyrdd eraill sy'n adlewyrchu'n fanwl gywir y dibenion sydd i'w cyflawni.

[2] Byddai hefyd yn dderbyniol i ddatgan yr amcan fel hyrwyddo addysg neu hybu celfyddyd gyda phŵer hyrwyddo i ddarparu a chynnal amgueddfa neu oriel gelf, fel y bo'r achos.

[3] Rydym wedi cyhoeddi arweiniad ymarferol yn ein cyhoeddiad **CC35: Elusennau a Masnachu**. Edrychwch hefyd yn ddiweddarach yn y ddogfen hon ar baragraff A31. Mae Cyllid y Wlad hefyd wedi cynhyrchu llyfryn sy'n esbonio eu heithriadau treth ar gyfer masnachu anelusennol. Gallwch gysylltu â nhw yn Elusennau Cyllid y Wlad, St John's House, Merton Road, Bootle, Merseyside, L69 9BB, Ffôn: 0151 472 6293/4 (ceisiadau am daflen IR2001), Ffôn: 0151 472 6043/6046 (ymholiadau masnachu gan elusennau), 0151 472 6036 (ymholiadau cyffredinol).

Celfyddyd

8. Byddwn yn ystyried ystyr y gair celfyddyd wrth bennu a yw'r maen prawf teilyngdod wedi'i fodloni neu beidio mewn ffordd eang a chynhwysol. Ystyr 'cynhwysol' yma yw eangfrydig ac agored. Mae celfyddyd yn cynnwys celfyddyd haniaethol, cysyniadol a pherfformiad. Gall y cyfrwng ar gyfer cyfathrebu celfyddyd gynnwys cyfrifiadur, fideo a dulliau aml-gyfrwng.

Pwyso a mesur teilyngdod ac "arbenigwyr"

9. Os yw nodweddion cynhenid arddangosyn neu gasgliad yn awgrymu bod rhagdybiaeth o deilyngdod, bydd ein staff yn gallu pennu'r maen prawf teilyngdod heb yr angen am dystiolaeth arbenigol; mae'r amgylchiadau yn cadarnhau bod y maen prawf teilyngdod wedi'i fodloni. Mae enghreifftiau o sefydliadau sy'n dod o fewn y band neu'r categori "amlwg" hwn yn cynnwys y rheiny sydd â chasgliadau o artistiaid sefydledig a chydnabyddedig. Os yw teilyngdod gwaith, artist neu gasgliad arbennig yn destun dadlau ymhlith barn ddeallus, byddwn yn ystyried y mater mewn ffordd gynhwysol.

10. Mae amgueddfa neu oriel gelf yn debygol o gael ei chofrestru dan y Cynllun Cofrestru i amgueddfeydd ac orielau celf yn y Deyrnas Unedig sy'n gosod y safonau lleiaf ar gyfer amgueddfeydd ac orielau celf yn nhermau casglu, gofal, gwasanaethau cyhoeddus a rheolaeth. Gall amgueddfeydd ac orielau celf hefyd fod yn aelodau o Gymdeithas yr Amgueddfeydd neu gyrff ymbarél eraill sy'n gysylltiedig â'r sector amgueddfeydd a chelfyddydau. Bydd amgueddfeydd ac orielau celf sydd wedi'u cofrestru dan y Cynllun Cofrestru yn dod o fewn y "band amlwg".

11. Gall fod achosion eraill lle y byddai ein staff yn gallu pennu a yw'r maen prawf teilyngdod wedi'i fodloni neu beidio heb yr angen am dystiolaeth arbenigol. Yn yr achosion hyn lle nad yw'r casgliad dan sylw yn bodloni'r maen prawf teilyngdod mewn ffordd amlwg, bydd rhai nodweddion pellach neu wybodaeth berthnasol a fydd yn ddigonol i'n bodloni bod y maen prawf wedi'i fodloni. Enghraifft fyddai aelodaeth sefydliadol o Gymdeithas yr Amgueddfeydd y cyfeirir ati uchod. Unwaith eto, os oes dadlau ymhlith barn ddeallus ynglŷn â theilyngdod gwaith, artist neu gasgliad arbennig, byddwn yn ystyried y mater mewn ffordd gynhwysol.

12. Os nad yw cais yn amlwg ar unwaith neu nid oes modd pennu ei deilyngdod mewn ffordd amlwg, rhaid i ni ddibynnu ar dystiolaeth arbenigol. Ymdrinnir â chymhwyster a dewis arbenigwyr ym mharagraffau A9 i A14 Atodiad A y ddogfen hon.

Gwybodaeth bellach

13. Os yw sefydlu amgueddfa neu oriel gelf elusennol o ddiddordeb i chi, cysylltwch â'n staff cofrestru ar 0870 333 0123.

Effaith yr arweiniad hwn ar elusennau sy'n bodoli

14. Ni ddylai fod angen i elusennau sy'n bodoli newid eu hamcanion o ganlyniad i'r arweiniad hwn. Ond dylai ymddiriedolwyr adolygu dulliau gweithredu'r amgueddfa neu'r oriel gelf. Yn arbennig dylai'r ymddiriedolwyr nodi'r maen prawf teilyngdod y cyfeiriwyd ato a'r hyn a ddywedwn yn ein harweiniad yn Atodiad A ynglŷn â:

- mynediad i'r cyhoedd; a
- chyfraniad unigolion a chyrff eraill lle y gallai fod gwrthdaro buddiannau, er enghraifft, lle mae annibyniaeth ymddiriedolwyr elusennau wedi'i chyfyngu neu lle y gall buddiannau preifat lywodraethu.

15. Os nad yw ymddiriedolwyr elusennau cofrestredig yn sicr ynglŷn â'r defnydd o'r arweiniad hwn neu os oes ganddynt unrhyw ymholiadau eraill, bydd ein staff cefnogi elusennau yn falch i drafod y materion gyda hwy. Gallwch gysylltu â nhw hefyd ar 0870 333 0123.

Effaith yr arweiniad hwn ar elusennau sy'n rhoi grantiau

16. Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i elusennau sy'n rhoi grantiau i amgueddfeydd a/neu orielau celf. Mae elusennau o'r fath yn cynnwys y rheiny a sefydlwyd gydag amcanion elusennol eang a phwerau rhoi grantiau cyffredinol. Er mwyn bodloni ei hun ei bod yn cyflawni dibenion elusennol, dylai unrhyw elusen sydd yn y sefyllfa hon ystyried yr arweiniad hwn wrth roi grantiau i amgueddfeydd ac orielau celf neu brynu eiddo ar eu cyfer.

Canllawiau pellach

Canllawiau cyffredinol

A1. Pan fyddwn yn derbyn cais gan amgueddfa neu oriel gelf i gofrestru fel elusen byddwn yn gofyn y cwestiynau canlynol ac yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Ydy'r casgliadau neu'r arddangosion wedi'u sefydlu er budd y cyhoedd? Hynny yw:

  (a) rhaid cael digon o fynediad i'r cyhoedd (gweler yn ddiweddarach yn A19);

  (b) rhaid i unrhyw fudd preifat a gaiff unigolion fod yn atodol ac wedi'i reoli'n briodol (gweler yn ddiweddarach yn A37); ac

  (c) ni ddylent gael eu defnyddio at ddibenion anelusennol, er enghraifft, masnachu'n bennaf (gweler yn ddiweddarach yn A34).

- Ydy'r casgliadau neu'r arddangosion yn bodloni maen prawf teilyngdod?

Adnabod teilyngdod

A2. Mynegir y maen prawf teilyngdod ym mharagraff 7 uchod. Yn achos amgueddfa nad yw'n ymwneud â chelfyddyd, er enghraifft amgueddfa wyddoniaeth, rhaid i ni fod yn fodlon bod y casgliad(au) a'r defnydd a wneir ohono / ohonynt yn addysgu'r ymwelydd, neu'n gallu gwneud hynny.

A3. Yn achos amgueddfa gelf neu oriel gelf, gall y budd addysgol fod ar ffurf ehangu neu ddyfnhau meddyliau'r ymwelwyr neu drwy ddatblygu eu pwerau mewnwelediad, canfyddiad a gwerthfawrogiad.

A4. Ni fydd ein hagwedd yn rhagnodol a bydd y safonau ar gyfer adnabod teilyngdod yn eang ac yn gynhwysol eu natur. Byddant yn cynnwys dulliau traddodiadol ac agweddau blaengar neu arbrofol. Bydd gwaith mewn unrhyw gyfrwng sefydledig yn cael ei ystyried i'w gofrestru.

Teilyngdod amlwg

A5. Wrth ystyried ceisiadau i gofrestru fel elusen gan amgueddfeydd neu orielau celf mae'n bosib y byddwn yn gallu canfod rhagdybiaeth o deilyngdod yn y casgliad(au) a'i ddefnydd / a'u defnydd arfaethedig mewn arddangosfa i'r cyhoedd. Os oes dadlau ymhlith barn ddeallus ynglŷn â theilyngdod gwaith, artist neu gasgliad arbennig, byddwn yn ystyried y mater mewn ffordd gynhwysol.

A6. Yn amodol ar y materion sy'n codi yn gyffredinol wrth ystyried ceisiadau, byddwn yn derbyn unrhyw amgueddfa neu oriel gelf sy'n arddangos casgliadau gan artistiaid cydnabyddedig; neu unrhyw amgueddfa neu oriel gelf sydd wedi cofrestru dan y Cynllun Cofrestru ar gyfer amgueddfeydd ac orielau yn y Deyrnas Unedig a weinyddir yn

Lloegr gan Re:source[4], ac a weinyddir yng Nghymru gan y corff priodol. Byddwn yn anwybyddu gweithgareddau anelusennol ategol y mae amgueddfeydd ac orielau celf yn ymgymryd a hwy. Ystyr gweithgareddau ategol yw gweithgareddau sy'n atodol ac yn eilradd i gyflawni amcan elusennol yr amgueddfa neu'r oriel gelf dan sylw.

Teilyngdod canfyddadwy

A7. Os nad oes modd pennu teilyngdod, gall fod modd canfod teilyngdod gwaith yr amgueddfa neu'r gwaith arfaethedig trwy ddulliau eraill, er enghraifft, trwy gyfeirio at ei haelodaeth o Gymdeithas yr Amgueddfeydd neu Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol. Gall aelodaeth o gyrff eraill fod yn berthnasol hefyd. Gall y maen prawf teilyngdod hefyd gael ei ganfod trwy gyfeirio at geisiadau a gyflwynwyd i Gynghorau Amgueddfeydd Rhanbarthol a gohebiaeth gysylltiedig. Unwaith eto, os oes dadlau ymhlith barn ddeallus ynglŷn â theilyngdod gwaith, artist neu gasgliad arbennig, byddwn yn ystyried y mater mewn ffordd gynhwysol.

Dim teilyngdod amlwg neu ganfyddadwy

A8. Os na allwn bennu neu ganfod bod y maen prawf teilyngdod wedi'i fodloni yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd eisoes, bydd angen dibynnu ar gymorth "arbenigwr", er mwyn i ni allu bodloni ein hunain yn briodol bod y maen prawf yn cael ei ateb.

A9. Mewn rhai achosion gall y dystiolaeth arbenigol ganolbwyntio yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar y ffordd y mae'r casgliad yn cael ei arddangos i'r cyhoedd (gan gynnwys unrhyw ryngweithio a gwaith estyn allan), er mwyn dangos bod y dull neu'r broses arddangos ei hun yn darparu budd addysgol. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosib y byddwn yn gallu derbyn y diben a ddatganwyd fel diben elusennol hyd yn oed os nad oes gan yr eitemau unigol a arddangosir unrhyw deilyngdod cynhenid arbennig.

A10. Os nad oes unrhyw ddull arddangos y gallwn ei dderbyn fel un addysgol, rhaid i'r dystiolaeth arbenigol ein bodloni bod yr arddangosion neu'r casgliadau o deilyngdod cynhenid o'r fath fel y byddai eu harddangos heb unrhyw beth arall yn ddigonol i fodloni'r maen prawf.

Y cais i gofrestru neu ganfyddadwy

A11. Byddem yn disgwyl i'r cais i gofrestru gynnwys datganiad gan yr hyrwyddwyr neu'r ymddiriedolwyr a/neu'r curadur. Bydd y datganiad hwn, a fydd yn sôn am y casgliad neu'r casgliadau a'r defnydd addysgol sydd i'w gwneud ohonynt a sut y cânt eu harddangos i'r cyhoedd, yn ein cynorthwyo i bennu a yw'r maen prawf yn amlwg neu'n ganfyddadwy.

Tystiolaeth "arbenigol"

A12. Os oes angen cymorth arbenigwr arnom er mwyn bodloni ein hunain bod y maen prawf wedi'i ateb, rhaid i'r arbenigwr gael cymwysterau addas.

[4] ei enw ffurfiol yw Cyngor yr Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

Cymwysterau "arbenigwyr"

A13. Y cymwysterau hanfodol y dylai arbenigwr feddu arnynt yw -

(1) trwy gymhwyster academaidd neu brofiad gwaith (neu'r ddau) sy'n berthnasol i'r casgliad dan sylw, gall yr arbenigwr ddangos ei fod yn gymwys i siarad ag awdurdod ar y casgliadau sy'n destun cais i gofrestru, a'r maen prawf teilyngdod.

(2) rhaid i'r arbenigwr fod yn annibynnol yn nhermau perthnasol, hynny yw, yn ddiduedd. Rhaid iddo neu iddi allu siarad yn wrthrychol mewn ffordd amhleidiol am y casgliad; mae hyn yn golygu na ddylai fod ganddo neu ganddi unrhyw fudd sylweddol neu gysylltiad teuluol â'r hyrwyddwyr, ymddiriedolwyr, sefydliad neu gasgliad. Wrth gwrs, nid yw hyn yn atal arbenigwr rhag llunio barn bendant ar deilyngdod artistig neu deilyngdod arall y casgliad y mae'n ei asesu[5].

A14. Gall staff amgueddfeydd, fel staff curadol, sydd â phrofiad gwaith perthnasol gyda chasgliadau o'r math dan sylw, weithredu fel "arbenigwyr" heb fod angen iddynt feddu ar gymhwyster academaidd perthnasol. Ym mhob achos dylid cynnwys disgrifiad o'u cymhwyster neu brofiad gyda'r cais[6].

Dewis "arbenigwyr"

A15. Yn amodol ar y cyfyngiadau hyn, bydd hyrwyddwyr/ymddiriedolwyr yr amgueddfa yn rhydd i ddewis arbenigwr ac fel rheol byddwn yn gallu derbyn ei adroddiad heb yr angen i gael unrhyw beth arall. Mewn achosion dadleuol byddwn yn ystyried y mater mewn ffordd gynhwysol. Rydym yn cadw'r hawl i ddilysu addasrwydd arbenigwr a ddewiswyd gan yr hyrwyddwyr.

A16. At ddiben dilysu, byddem yn ceisio barn corff priodol fel Re:source neu'r Cyngor Amgueddfeydd Rhanbarthol perthnasol. Rydym am sicrhau ein bod yn clywed gan yr arbenigwr priodol ar gyfer y casgliad neu'r casgliadau sy'n cael ei ystyried/eu hystyried ac yn achos amgueddfa fwy lleol, gall arbenigwr lleol fod yn fwy priodol nag arbenigwr cenedlaethol a rhoi barn fwy defnyddiol.

A17. Ni ragwelwn y bydd rhaid i ni ymyrryd yn y ffordd hon ac eithrio mewn achosion prin iawn; ond wrth ystyried pob cais byddwn yn dod i'n casgliadau ein hunain ynglŷn â theilyngdod, yn seiliedig ar y maen prawf a byddwn yn ystyried barn yr hyrwyddwyr a'r cyngor arbenigol annibynnol wrth wneud hynny.

---

[5] Gall bod yn greawdwr gwaith neu weithiau o'r un fath â'r casgliad dan sylw gael ei dderbyn fel cymhwyster neu awdurdod a chymhwysedd. Ond byddem yn sicrhau nad oedd ef neu hi yn bleidiol. Ynglŷn â'r posibilrwydd egwan y gall ddau neu fwy o greawdwyr yr un math o waith gadarnhau teilyngdod gwaith ei gilydd, ni fyddai'r farn/cyngor yn annibynnol o fewn y diffiniad uchod.

[6] Wrth gwrs, ni fyddai curadur y casgliad dan sylw yn annibynnol.

Amgueddfeydd ac orielau celf newydd

A18. Yn achos amgueddfa neu oriel gelf sy'n cael ei chynllunio, ni fydd gan y sefydliad gasgliad o anghenraid. Nid yw hyn yn golygu nad oes modd ei gofrestru fel elusen. Byddwn yn gofyn i'r sefydliad gynhyrchu deunydd sy'n dangos bod y casgliad ar ôl ei brynu a'r defnydd sydd i'w wneud ohono yn bodloni'r maen prawf teilyngdod a bod y gweithgareddau arfaethedig wedi'u hadlewyrchu'n briodol yn nogfen lywodraethol y sefydliad.

Budd i'r cyhoedd a mynediad i'r cyhoedd

A19. Bydd y cwestiwn o fudd i'r cyhoedd wedi'i gyfyngu yn achos y rhan fwyaf o amgueddfeydd ac orielau celf at bennu a yw'r arddangosfa o gasgliad neu gasgliadau yr amgueddfa dan sylw yn bodloni'r maen prawf teilyngdod oherwydd, yn gyffredinol, mae amgueddfeydd ac orielau celf yn agored i'r cyhoedd. Credwn fod mynediad yn hanfodol i statws elusennol. Nid yw cyfyngiadau mympwyol ar fynediad nad yw'n gysylltiedig â'r deunydd neu ddibenion yr amgueddfa neu'r oriel gelf yn dderbyniol[7].

A20. Er nad oes unrhyw ofynion lleiaf o ran "oriau agor", yr egwyddor i'w mabwysiadu yw y dylai'r casgliadau fod ar gael yn ddigon aml i ddarparu ar gyfer pob math o ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys bod ar agor ar y penwythnos yn ogystal ag oriau busnes arferol, Llun - Gwener. Os na all amgueddfa neu oriel gelf aros ar agor bob dydd, er enghraifft, am resymau cost neu lefelau staffio annigonol, rhaid i'w chorff llywodraethol benderfynu pa ddiwrnodau y bydd ar gau. Yn amodol ar amgylchiadau y tu allan i'w rheolaeth sy'n cyfyngu ar eu gweithrediad, byddem yn disgwyl iddynt agor ar y diwrnodau hynny pan fydd aelodau'r cyhoedd yn fwy tebygol o allu ymweld.

A21. Derbyniwn fod modd cyflwyno rhesymau da dros agor ar lai o ddiwrnodau ond po leiaf yw'r diwrnodau hynny, y mwyaf y pryder nad yw budd i'r cyhoedd yn bresennol. Fel mater o bolisi byddem yn disgwyl i hyd yn oed amgueddfeydd ac orielau celf bach fod ar agor am o leiaf hanner y flwyddyn.

A22. Os yw'r ymddiriedolaethau neu'r ymddiriedolwyr yn gosod unrhyw gyfyngiad ar fynediad i'r cyhoedd, rhaid i'r cyfyngiad gynnig modd o gyflawni'r diben elusennol yn well a dylid ei osod dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol (a ddim mwy na hynny) er mwyn hybu'r amcan elusennol. Er enghraifft, gellir cyfyngu ar fynediad corfforol am resymau diogelwch yr eiddo, diffyg adnoddau, cyflwr y casgliadau a'r angen i'w diogelu neu er mwyn gweinyddu'r elusen yn well.

A23. Wrth ystyried cais i gofrestru fel elusen, byddwn yn gofyn am fanylion ynglŷn â'r darpariaethau mynediad a gynigir os nad yw hyn yn amlwg yn y dogfennau a ddarperir. Os yw mynediad i'r cyhoedd wedi'i gyfyngu'n benodol, byddwn yn gofyn beth yw'r rhesymau am y cyfyngiad

[7] Cymerir yn ganiatáol y bydd amgueddfeydd ac orielau celf elusennol, fel pob sefydliad cyhoeddus, yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n sicrhau cynhwysiad fel deddfwriaeth cysylltiadau hiliol a gwahaniaethu ar sail anabledd.

hwn. Os yw cyfyngiadau anghyfiawn wedi'u mynegi yn yr ymddiriedolaethau gallent amharu ar yr hyn a fyddai fel arall yn ddiben elusennol.

Strwythur aelodaeth

A24. Mewn achosion eithriadol mae'n bosib y bydd angen cael cyfyngiad ar fynediad corfforol gan y cyhoedd y gellir ei ddiwallu trwy gynnig mynediad wedi'i reoli trwy gyfrwng strwythur aelodaeth; er enghraifft, problemau diogelwch a/neu gyflwr casgliadau ac arddangosion. Os yw strwythur aelodaeth yn cael ei fabwysiadu byddwn yn gwneud ymholiadau er mwyn sicrhau mai'r unig reswm dros ei fabwysiadu yw hybu dibenion elusennol. At hynny, byddem am weld dulliau diogelu penodol er mwyn sicrhau bod yr aelodaeth wedi'i chyfyngu dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol fel a bennir gan nodweddion y casgliad dan sylw a'r dibenion sy'n cael eu hybu; a bod hawliau'r amgueddfa i wrthod neu derfynu aelodaeth yn amodol ar arolygiaeth a bod modd eu harfer dim ond am reswm da.

Benthyg casgliadau

A25. Mae tri phwynt arall i'w hystyried ynglŷn â mynediad corfforol i'r cyhoedd. Yn gyntaf, os na all yr elusen ei hun ddarparu ar gyfer mynediad corfforol i'r cyhoedd oherwydd diffyg adnoddau, byddwn yn gofyn i'r hyrwyddwyr/ymgeiswyr beth yw eu hagwedd tuag at hybu mynediad i'r cyhoedd trwy fenthyg y casgliadau a'r arddangosion i sefydliadau sy'n meddu ar yr adnoddau hyn.

Codi tâl mynediad

A26. Yr ail bwynt yw codi tâl. Er mai polisi'r Llywodraeth yw y dylai amgueddfeydd ac orielau celf gynnig mynediad am ddim, cydnabyddwn y bydd yn rhaid i rai godi tâl. Os nad yw'r cais yn sôn am hyn, byddwn yn holi a fydd tâl yn cael ei godi a byddwn yn dilyn yr egwyddorion ynglŷn â chodi tâl a amlinellir yn ein cyhoeddiad **RR8: Natur Gyhoeddus Elusennau**. Felly byddwn yn disgwyl gweld bod y tâl a godir yn rhesymol, yn briodol i ddibenion cyffredinol y sefydliad ac wedi'u gosod ar gyfradd sy'n pwyso a mesur gweithgareddau'r sefydliad yn awr ac yn y dyfodol ac nid ydynt wedi'u gosod ar lefel sy'n gwahardd rhan sylweddol o'r cyhoedd.

Storio arddangosion

A27. Y trydydd pwynt yw dwyn ynghyd casgliadau sy'n fwy na gallu arddangos yr amgueddfa neu'r oriel gelf ac felly mae rhan neu rannau o'r casgliad yn cael ei storio. Nid oes unrhyw wrthwynebiad i storio arddangosion am resymau da ond daw adeg pan fydd "storio" yn cael ei ystyried yn cronni os nad yw'n rhesymol disgwyl y gallant gael eu harddangos neu y byddant yn cael eu harddangos. Os yw amgueddfa neu oriel gelf yn wynebu anhawster o'r fath byddem yn disgwyl i'r ymddiriedolwyr ystyried a yw dal casgliadau o'r fath er budd y cyhoedd os yw'r mynediad a gynigir i'r cyhoedd, neu rannau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, yn ddibwys neu heb fod mewn gwirionedd[8].

[8] Ac fel yr eglura'r ddogfen hon, derbyniwn fod modd cynnig mynediad trwy amryw o ddulliau, nad yw'n cynnwys naill ai arddangosfa gyhoeddus fenthyg neu barhaol o anghenraid.

Dulliau eraill o gynnig mynediad heblaw mynediad corfforol

A28. Nid mynediad corfforol yw'r unig ffordd o fesur natur gyhoeddus elusen er mai dyma yw'r ffordd fwyaf amlwg o wneud hynny ac os nad oes modd cynnig mynediad corfforol, rhaid i'r amgueddfa neu oriel gelf ddod o hyd i ffyrdd eraill o fodloni'r prawf budd i'r cyhoedd fel y rhyngrwyd; cyhoeddi fideos neu lenyddiaeth; darlithoedd; benthyg arddangosion i sefydliadau a allai eu harddangos i'r cyhoedd (ar yr amod nad oes unrhyw beth yn yr ymddiriedolaethau sy'n gwahardd hyn); a sylw ar y teledu a'r radio.

A29. Mae'r dulliau eraill hyn o gynnig mynediad yn awgrymu dulliau priodol posib eraill o ddefnyddio'r casgliad neu'r casgliadau i gynnig budd i'r cyhoedd ac nid ydynt yn darparu rhestr gyflawn. Byddwn yn ystyried unrhyw ddulliau priodol eraill o fodloni'r angen i gynnig budd i'r cyhoedd.

Manylion ynglŷn â mynediad mewn adroddiadau blynyddol

A30. Byddem yn ail-ddatgan ein hargymhelliad a wnaed yn ein cyhoeddiad **RR9: Cadwraeth a Gwarchod** sef y byddai'n arfer dda i amgueddfeydd ac orielau celf sy'n elusennau ddatgelu, naill ai yn eu hadroddiad blynyddol neu rywle arall:

- nifer y bobl sy'n ymweld â'r amgueddfa neu oriel gelf a, lle y bo'n briodol, y nifer sydd wedi gwneud ymholiadau ond nid oedd modd iddynt ymweld;
- y trefniadau i roi cyhoeddusrwydd yn genedlaethol neu o fewn yr ardal leol;
- os yw mynediad corfforol wedi'i gyfyngu neu nid yw ar gael, sut y cyfiawnheir parhau â pholisi o'r fath, gyda manylion am ddulliau eraill o ecsbloetio'r casgliad neu'r casgliadau er mwyn cynnig budd i'r cyhoedd a'r ymgais i fenthyg casgliadau i gyrff eraill eu harddangos i'r cyhoedd (ar yr amod nad oes unrhyw beth yn yr ymddiriedolaethau sy'n atal benthyciad o'r fath); ac, yn dilyn o hyn
- os oes aelodaeth, nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am aelodaeth a'r nifer y gwrthodwyd gyda rhesymau. Bydd datganiad o'r polisi aelodaeth yn ddefnyddiol hefyd;
- os oes arddangosion sydd heb gael eu harddangos i'r cyhoedd, esboniad am y problemau ac unrhyw gynlluniau i'w harddangos yn y dyfodol.

A31. Os nad yw gwybodaeth o'r fath wedi'i chynnwys yn yr adroddiad ei hun, argymhellwn y dylai'r adroddiad esbonio sut i gael y ddogfen sy'n cynnwys y wybodaeth.

Annibyniaeth

A32. Yn ddelfrydol rydym am weld corff sydd wedi'i sefydlu gydag ymddiriedolwyr annibynnol, sydd heb unrhyw wrthdaro buddiannau, gyda digon o arian i'w alluogi i geisio ei gyngor proffesiynol ei hun a chael rhwydd hynt i ddatblygu ei safbwyntiau a'i bolisïau ei hun. Disgwyliwn weld fod unrhyw drefniadau cyllido neu brydlesu yn diogelu

disgresiwn sylfaenol yr ymddiriedolwyr ynglŷn â darparu gwasanaethau, ac nid ydynt yn gofyn i'r ymddiriedolwyr weithredu polisïau a dymuniadau sydd o natur anelusennol.

A33. Os yw amgueddfa neu oriel gelf am fod yn elusennol, rhaid i'w dibenion gael eu cyfeirio at addysgu neu hybu celfyddyd yn unig, fel y bo'r achos, mewn ffordd sy'n dderbyniol dan y gyfraith. Gall amodau a osodir gan ddarparwyr neu gymwynaswyr sefydliadau sydd newydd gael eu sefydlu godi pryderon ynglŷn ag annibyniaeth rheolaeth y sefydliadau hyn a'r budd preifat a gaiff unigolion nad ydynt yn amcanion priodol yr elusen ond nid yw hyn yn golygu y byddwn yn gwrthod cofrestru os ydym yn gweld y posibilrwydd o wrthdaro buddiannau. Os yw'r sawl sy'n darparu casgliad am barhau i gymryd rhan yn rheolaeth y sefydliad, byddwn yn disgwyl i'r ceiswyr ddangos bod y cyfraniad er budd yr elusen ac y gall ac y bydd unrhyw sefyllfa o wrthdaro buddiannau yn cael ei rheoli[9].

Masnachu

A34. Cydnabyddwn fod amgueddfeydd ac orielau celf yn cael eu hannog i fod yn hunanariannol cyn belled â phosib. Os yw amgueddfa neu oriel gelf yn elusen ac mae ganddi gwmni masnachu, neu bydd yn cael cwmni masnachu, disgwyliwn i'r holl drefniadau rhyngddi â'i chwmni masnachu gael eu trafod ar hyd braich. Os ydym yn fodlon bod diben sefydliad yn elusennol, ond mae'n ymgymryd â gweithgaredd masnachu i raddau mwy na'r hyn a ganiateir, byddwn yn ei gynorthwyo i gofrestru trwy gynnig cyngor er mwyn i'w drefniadau fodloni gofynion elusennau yn ogystal â gofynion rheolyddion eraill[10].

A35. Rydym hefyd yn cydnabod y gall amgueddfeydd ac orielau celf ddymuno gweithio gyda'r sector twristiaeth, a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny. Rydym yn gweld yr amgueddfa neu'r oriel gelf yn cydweithredu gyda'r nod o hyrwyddo addysg neu hybu celfyddyd ac mae'r cydweithrediad yn cynrychioli ffordd o gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Secondio staff

A36. Mae amgueddfeydd ac orielau celf hefyd yn "allforio" eu hadnoddau e.e. secondio arbenigwyr i amgueddfeydd ac orielau celf eraill yn y wlad hon a thramor i gyfarwyddo a throsglwyddo gwybodaeth. Cydnabyddwn fod y rheiny sydd ar secondiad yn hyfforddi ac yn datblygu eraill i gynnal ac arddangos casgliadau o deilyngdod addysgol, artistig neu deilyngdod arall sydd o fudd i'r cyhoedd. Gall amcanion yr amgueddfa neu'r oriel gelf sy'n "secondio" gael eu llunio er mwyn caniatáu gweithgaredd o'r fath. Ond, ni fydd amcanion sydd wedi'u cyfyngu i arddangos casgliad mewn ardal leol benodol yn caniatáu secondio ei guradur i amgueddfa arall os nad oes budd cymesur i'r amgueddfa (a all fod ar ffurf yr hyfforddiant a'r profiad y mae ef neu hi yn ei gael).

---

[9] Bydd y bobl hynny o fewn y Comisiwn sy'n ystyried cais i gofrestru fel elusen yn dilyn yr egwyddorion, cyn belled ag y bônt yn briodol, fel y'u hesbonnir yn ein cyhoeddiad **RR7: Annibyniaeth Elusennau o'r Wladwriaeth**.

[10] Rydym wedi cyhoeddi arweiniad ymarferol yn ein cyhoeddiad **CC35: Elusennau a Masnachu**. Gweler hefyd troednodyn 3 uchod.

Cyllido a grantiau amodol

A37. Cydnabyddwn fod amgueddfeydd ac orielau celf fel nifer o elusennau eraill yn dibynnu ar gyllido allanol fel arfer. Nid yw hyn yn broblem. Gall cyllido o'r fath gan ddarparwr/cymwynaswr gael ei roi trwy gyfrwng grant neu drwy lunio trefniadau cytundebol â'r cyllidwr. Byddwn yn holi a yw'r amodau grant neu drefniadau cytundebol yn golygu bod annibyniaeth gweithredu corff llywodraethol yr amgueddfa neu'r oriel gelf wedi'i chyfyngu. Byddwn yn holi i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni ein hunain nad yw unrhyw gyfyngiad wedi'i osod at ddiben sy'n anelusennol[11].

Budd i'r cyhoedd yn erbyn budd preifat

A38. Mae pryder ynglŷn â'r budd preifat sy'n deillio o rodd yn codi pan fydd darparwr/cymwynaswr yn parhau â'i ddiddordeb uniongyrchol yn y sefydliad neu ei gasgliadau neu arddangosion. Y llinyn cyffredin sy'n rhedeg trwy'r cwestiwn o fudd i'r cyhoedd yn erbyn budd preifat yw bod rhaid i amgueddfa neu oriel gelf elusennol, fel unrhyw elusen arall, gyflawni dibenion elusennol yn unig ac mae cyflwyno diben anelusennol yn creu problem sylfaenol. Nid ydym yn ystyried y cymhelliad dros roi'r rhodd. Yr hyn y byddwn yn ei ystyried yw'r dibenion gwirioneddol sy'n cael neu a fydd yn cael eu cyflawni yn unol â darpariaethau'r ddogfen lywodraethol.

A39. Rydym yn awyddus i hybu haelioni. Derbyniwn y gall cyfranogiad parhaus darparwyr/cymwynaswyr yn y casgliadau a'r arddangosion y maen nhw'n eu rhoi gynnig budd positif a gwella gwaith yr amgueddfa neu'r oriel gelf dan sylw. Mae'n bosib mai dyma fydd yr achos hefyd gydag aelodau teulu cyfrannwr, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os yw darparwr/cymwynaswr casgliad am barhau â diddordeb ac, o ganlyniad, gall ychydig o fudd preifat godi, ni fydd cofrestru yn cael ei wrthod o anghenraid ond byddwn am fodloni ein hunain bod y budd yn dod o fewn yr egwyddorion rydym eisoes wedi'u gosod[12].

A40. Os yw unigolion nad ydynt yn amcanion yr elusen yn cael budd, yr egwyddor gyffredinol a ddilynir ac a ystyrir yn gyfraith yw bod budd preifat (hynny yw, budd a gaiff unigolyn mewn ffordd arall heblaw trwy fod yn amcan yr elusen) yn gyfreithlon atodol os yw'n deillio fel canlyniad angenrheidiol ond atodol i benderfyniad a wnaed gan yr ymddiriedolwyr sydd â'r unig nod o hybu dibenion elusennol y sefydliad ac mae gwerth y budd yn rhesymol. Mae'r budd yn ategol ond yn eilradd i'r diben elusennol a gyflawnir. Mae'n dilyn bod y budd yn codi neu'n digwydd o ganlyniad i weinyddu'r elusen ond mae'r dull gweinyddu sy'n esgor ar y budd yn ffordd briodol o gyflawni'r diben elusennol dan sylw.

A41. Mae enghreifftiau o achosion lle byddwn yn gwneud ymholiadau os nad yw'r cais yn egluro hyn yn cynnwys y canlynol:

---

[11] Byddwn yn dilyn yr egwyddorion cyn belled ag y bônt yn berthnasol a amlinellir yn ein cyhoeddiad **RR7: Annibyniaeth Elusennau o'r Wladwriaeth**.

[12] Byddwn yn dilyn yr egwyddorion, cyn belled ag y bônt yn briodol, fel a esbonnir yn ein cyhoeddiad **RR8: Natur Gyhoeddus Elusennau** [paragraffau 16 ac ymlaen ac yn Atodiad C] a **RR9: Cadwraeth a Gwarchod**.

- Mae'r darparwr/cymwynaswr yn rhoi rhodd o gasgliad neu arddangosion gan gadw hawliau neu fuddiannau; er enghraifft, os yw casgliad yn amodol ar yr hawl i "ddefnyddio'r" casgliad neu rai o'r arddangosion ar achlysuron preifat penodol[13].

- Mae'r darparwr/buddiolwr yn darparu ar gyfer swydd â thâl i'w hunan a/neu aelod o'i deulu.

- Casgliadau neu arddangosion sy'n cael eu benthyg yn unig i'r sefydliad. Os yw unrhyw fuddiannau yn cael eu cynnig i'r darparwr/cymwynaswr, byddwn am fodloni ein hunain eu bod nhw'n atodol. Felly, byddwn yn gwneud ymholiadau, er enghraifft, ynglŷn â chynnal a chadw/diogelu a threfniadau yswiriant yn ogystal ag unrhyw delerau eraill y benthyciad.

- Bydd y darparwr/cymwynaswr yn arddangos un neu fwy o'i weithiau ei hun.

- Mewn unrhyw un o'r enghreifftiau hyn, er bod yr egwyddorion a ddilynir yn aros yr un fath, mae'r ffeithiau yn cael eu cymhlethu pan fydd casgliadau neu arddangosion yn waith artist byw neu os yw'r artist wedi marw ac mae'r budd preifat yn cael ei drosglwyddo i'w ystad neu deulu. Mae'r broblem hon yn gwaethygu os yw'r unigolyn dan sylw neu aelodau'r teulu yn ymddiriedolwyr neu'n bwriadu bod yn ymddiriedolwyr.

[13] Serch hynny, derbyniwn fod y darparwr/cymwynaswr yn rhydd i roi llai na'i fudd cyfan mewn unrhyw eiddo ac felly os na fwriedir unrhyw ddiben cudd, gellir derbyn y rhodd fel un elusennol.

Crynodeb o'r gyfraith berthnasol sy'n ymwneud ag amgueddfeydd ac orielau celf

Addysg

B1. Mae'r gyfraith elusennau, ac o fewn y gyfraith elusennau y cysyniad o addysg, yn un sy'n datblygu. Derbynnir:

> *"nad yw syniadau'r dyn dysgedig am addysg yn sefydlog, ond yn symud ac yn newid. Mae'r ddau yn newid gyda newidiadau mewn syniadau ynglŷn â gwerthoedd cymdeithasol. Yn arbennig wrth gymhwyso'r gyfraith i amgylchiadau cyfoes mae'n beryglus iawn anghofio bod syniadau ynglŷn â chwmpas ac ehangder addysg yn wahanol iawn yn y gorffennol i'r rheiny a dderbynnir yn gyffredinol heddiw"[14].*

B2. Mae'r llys hefyd wedi derbyn nad yw addysg wedi'i chyfyngu i hyfforddiant a chyfarwyddyd ffurfiol[15].

B3. Mae addysg, cyn belled ag y bo elusennau yn y cwestiwn, yn ymestyn i "wella cangen ddefnyddiol o wybodaeth a'i lledaeniad cyhoeddus"[16]. Disgrifiad arall o addysg yw "ennill gwybodaeth a medr…trwy astudio haniaethol a thrwy ymarfer y gelfyddyd … ac maen nhw'n gallu cynnwys darganfod gwybodaeth newydd, sy'n ffrwyth gwaith ymchwil, a dysgu gwybodaeth sy'n bodoli naill ai gan fyfyrwyr sy'n cymhwyso neu gan [y rheiny sy'n gymwys] ac sydd am wella eu gwybodaeth a'u medr..."[17] Felly, mae addysg (hynny yw, addysg nad yw'n gorfforol), yn cael ei hystyried gan y llys yn weithred sy'n cynnwys proses o hyfforddi'r meddwl, hynny yw, adeiladu neu feithrin y meddwl.

B4. O fewn y maes elusennau derbynnir bod addysg yn derm eang ond rhaid i addysg oleuo, hyfforddi neu gyfarwyddo'r meddwl mewn gwybodaeth ddefnyddiol. Mae addysg yn ymestyn i ddarparu cyfleoedd i'r cyhoedd archwilio gwaith crefftwyr a oedd yn byw amser maith yn ôl[18] a dysgu am eu celfyddyd a'u harferion[19].

---

[14] Yn ôl Arglwydd Hailsham yn IRC v McMullen [1981] AC 1, 15.

[15] Parthed Shaw's Will Trusts [1952] Pennod 163; Parthed Webber [1954] W.L.R. 1500. A hefyd gweler y Gymdeithas Gorawl Frenhinol v IRC [1943] 2 All ER 101.

[16] Cyngor Corfforedig Cofnodi'r Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr v Y Twrnai Gwladol [1972] 1 Pennod 73, 102.

[17] Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr v National Provincial Bank Ltd. [1952] A.C. 631.

[18] Parthed Cranstoun [1932] 1 Pennod 537.

[19] CIR v White (parthed Cymdeithas y Crefftwyr Clerkenwell Green) [1980] I.R. 155.

Addysg a chelfyddyd o fewn cwmpasiad elusen

B5. Mae'r llys wedi hen dderbyn y gall amgueddfeydd fod yn elusennol gan eu bod yn hyrwyddo addysg[20].

B6. Mae dysgu a gwyddoniaeth er budd y cyhoedd yn elusennol[21]. Mae'r llys yn derbyn bod addysg yn ymestyn y tu hwnt i astudio pynciau academaidd mewn sefydliad addysgol i bynciau fel celfyddydau cyfathrebu cymdeithasol[22] ac egwyddorion disgyblaeth, teyrngarwch a dinasyddiaeth dda[23]. Mae hybu celfyddyd yn elusennol. "Rwy'n meddwl bod 'addysg' yn cynnwys .... nid yn unig addysgu, ond hybu neu annog y celfyddydau hyn a grasau bywyd sydd efallai, wedi'r cwbl, yn cynrychioli ochr orau y natur ddynol"[24]. Mae ymddiriedolaethau i sefydlu a chynnal amgueddfeydd ac orielau celf yn elusennol[25]. Mae rhodd i amgueddfa sefydledig yn elusennol[26].

B7. Wrth gwrs, mae rhai ffiniau. Hefyd, ni fydd amgueddfa sydd wedi cronni casgliad sydd, mewn gwirionedd, yn gabinet trugareddau sy'n difyrru neu'n diddanu yn unig, yn elusen[27]. Ond nid yw hyn yn golygu bod pleser, adloniant neu difyrrwch yn amharu ar yr un sydd, fel arall, yn ddiben elusennol[28].

B8. Mae'r llys wedi cynnal nad oes modd derbyn profiad yn unig fel diben elusennol[29]. Nid yw diben neu weithgaredd sy'n adloniant neu'n ddifyrrwch yn y bôn yn cael ei droi'n elusennol oherwydd ei fod yn cael effaith addysgol neu fuddiol[30].

---

[20] Thompson v Shakespeare [1859] Adroddiadau Johnson 612; [1860] 1 De G.F. & J 399; Amgueddfa Prydain v White [1826] 2 Sim & St 594; Parthed Allsop [1884] 1 T.L.R. 4; Parthed Holbourne [1885] 53 L.T. 212; Parthed Spence [1938] Pennod 96. Y farn draddodiadol bod amgueddfeydd ac orielau celf yn cael eu derbyn fel elusennau yw eu bod yn llefydd gyda'r unig weithgaredd gweladwy cyhoeddus o ddangos gwrthrychau o werth addysgol neu werth artistig o safon uchel. Mabwysiadodd y llysoedd farn ynglyn ag amgueddfeydd a chelfyddyd a adlewyrchai hyn ac erbyn hyn ystyrir ei fod yn gul. Mae'r Comisiwn wedi hen gydnabod bod amgueddfeydd ac orielau celf wedi datblygu'n fawr ers i'r llys gael achos i ystyried eu natur elusennol, naill ai addysgol neu fel cyrff sy'n hybu dibenion eraill er budd y cyhoedd. Erbyn hyn mae amgueddfeydd ac orielau celf yn fwy tebygol o ddal a diogelu casgliadau (sydd heb unrhyw werth cynhenid eu hunain o bosib) a ddefnyddir mewn proses sy'n addysgol - mewn geiriau eraill mae'r ffocws wedi symud o werth neu ddiffyg gwerth yr arddangosion eu hunain i'r defnydd a wneir ohonynt mewn arddangosfa neu arddangosiad i'r cyhoedd. Weithiau cyfeirir at y broses hon fel proses ryngweithiol neu arbrofol neu gall ffurfio rhan o raglen estyn allan.

[21] Cyngor Corfforedig Cofnodi'r Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr v Y Twrnai Gwladol [1972] 1 Pennod 73, 92.

[22] Parthed Shaw's Will Trusts [1952] Pennod 163.

[23] Parthed Webber [1954] W.L.R. 1500.

[24] Parthed Shaw's Will Trusts [1952] 1 Pennod 163, 172 Vaisey, J.

[25] Amgueddfa Prydain v White [1826] 2 Sim & St 594; Parthed Allsop [1884] 1 T.L.R. 4; Parthed Holbourne [1885] 53 L.T. 212; Parthed Spence [1938] Pennod 96. A gweler Tudor on Charities 8fed argraffiad td.46.

[26] Ymddiriedolaethau Amgueddfa Prydain v White [1826] 2 Sim & St. 594.

[27] Gweler Parthed Pinion [1965] 1 Pennod 85.

[28] Y Gymdeithas Gorawl Frenhinol v IRC [1943] 2 All ER 101.

[29] IRC v Baddeley [1955] AC 572, 585.

[30] Gweler IRC v McMullen [1981] AC 1, 15.

B9. Ond, mae'n ymddangos po ieuaf y mae'r buddiolwyr arfaethedig, y mwyaf rhyddfrydig y mae'r llysoedd yn eu dehongliad o addysg[31]. Mae gan gêm gwyddbwyll werth addysgol ac felly gall twrnameintiau i bobl ifanc fod yn elusennol er mwyn hyrwyddo addysg[32].

Rhaid cael nod o addysgu, hynny yw, goleuo'r meddwl

B10. Gall yr egwyddorion a esbonnir yn achosion y Gymdeithas Gorawl[33], Cranstoun[34] a Clerkenwell Green[35] gael eu cymhwyso trwy gyfatebiaeth i sefydliadau a chyrff sy'n ymwneud ag amgueddfeydd ac orielau celf. Trwy ddilyn y dibenion elusennol, mae'r sefydliad yn gallu addysgu:

- aelodau'r sefydliad os yw'r strwythur aelodaeth yn briodol. [Cydnabyddir y gellir codi (neu hyfforddi) chwaeth artistig trwy gyflwyno neu arddangos gweithiau teilwng]; ac

- aelodau'r cyhoedd.

B11. Cydnabyddir hefyd y gall yr hyfforddiant fod yn raddol a gall aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld wneud hynny gyda'r syniad o gael eu difyrru neu eu diddanu; ond nid cyflwr meddwl y rheiny a fyddai'n cael eu difyrru neu eu diddanu sy'n bwysig. Pwrpas y bobl sy'n perfformio neu'n arddangos, sy'n darparu'r "adloniant" [os yw'r rheiny sy'n mynychu yn ei weld fel adloniant] sy'n bwysig. Mae'r pleser yn isgynnyrch gwir ddiben y sefydliad sy'n elusennol[36]. Mae derbyniad cyffredinol y penderfyniad yn achos y Gymdeithas Gorawl[37] yn arwydd clir y byddai'r llys yn derbyn casgliadau neu arddangosion o deilyngdod addysgol neu artistig amrywiol, ar yr amod, pan gânt eu profi yn eu cyfanrwydd, eu bod yn cynnwys proses addysgu neu oleuo sy'n briodol i'r cyhoedd sy'n ymweld.

Gorgyffwrdd rhwng hyrwyddo addysg a dibenion sy'n darparu budd i'r cyhoedd

B12. Mae'r llys wedi derbyn rhoddion i amgueddfeydd a chelfyddyd yn elusennol at bwrpas hyrwyddo addysg[38] neu at bwrpas sydd o fudd cyffredinol i'r cyhoedd y gall y llys ei dderbyn fel un elusennol. Er enghraifft, nid yw casgliad personol yn addysgol o anghenraid; rhaid ystyried yr arddangosion eu hunain. Ond, os oedd y casgliad yn eiddo unigolyn enwog neu'n gysylltiedig â digwyddiadau pwysig, gall hyd yn

---

[31] Gweler Parthed Ystad Ward [1937] 81 Sol Jo 397, Parthed Ymddiriedolaethau Gweithredoedd Dupree [1945] Pennod 16, a Parthed Lopes [1931] 2 Pennod 130.

[32] Parthed Dupree's WT [1945] Pennod 16. (Mae'r ddedfryd yn cyfeirio at fechgyn a dynion ifanc).

[33] Y Gymdeithas Gorawl Frenhinol v IRC [1943] 2 All ER 101.

[34] Parthed Cranstoun [1932] 1 Pennod 537.

[35] CIR v White (parthed Cymdeithas i Grefftwyr Clerkenwell Green) [1980] I.R. 155.

[36] Y Gymdeithas Gorawl Frenhinol v IRC [1943] 2 All ER 101. Mynegwyd yr egwyddorion hyn mewn perthynas â gwerthfawrogi cerddoriaeth ond drwy gyfatebiaeth fe'u hestynnwyd i ddibenion amgueddfeydd ac orielau.

[37] Y Gymdeithas Gorawl Frenhinol v IRC [1943] 2 All ER 101. Cymeradwyodd y llys gyfraniad unigolion mewn cymhwysiad ymarferol o broses addysgu iddynt hwy eu hunain yn ogystal ag i eraill.

[38] Cymerir bod budd i'r cyhoedd os yw'r dibenion yn addysgol.

oed eitemau cyffredin fod yn werth eu diogelu a'u harddangos oherwydd gallant fod o werth addysgol neu deilyngdod artistig neu arall gan eu bod yn addysgu neu'n goleuo'r meddwl. Neu mae'n bosib y gall fod casgliadau neu arddangosion a all fod yn werth eu diogelu a'u harddangos at ryw bwrpas arall sydd o fudd i'r cyhoedd. Er enghraifft, gallant weithredu swyddogaeth goffa neu gall fod er budd y cyhoedd iddynt gael eu diogelu.

B13. Yn achos Cranstoun[39] mae darparu cyfleoedd i'r cyhoedd archwilio gwaith crefftwyr a oedd yn byw amser maith yn ôl yn elusennol. Derbyniodd y Llys bod y dibenion hyn o ddefnydd cyffredinol i'r cyhoedd er budd y cyhoedd. Er gwaethaf hyn, gall y dibenion fod yr un mor dderbyniol ar gyfer hyrwyddo addysg[40]. Mae achos Clerkenwell Green[41] yn dangos bod darparu cyfleoedd i'r cyhoedd dysgu am gelfyddyd ac arferion crefftwyr yn elusennol. Derbyniodd y llys yn yr achos hwnnw bod diogelu a gwella crefftwaith cain yn ddiben elusennol er budd y cyhoedd.

Budd i'r Cyhoedd

Rhaid i'r pwnc fod yn ddefnyddiol neu fel arall yn fuddiol

B14. Rhaid i'r addysg neu'r gelfyddyd fod yn fuddiol h.y. o deilyngdod addysgol neu arall i'r gymuned a rhaid i'r buddiannau fod ar gael i'r cyhoedd [neu ran ddigonol o'r cyhoedd]. Felly, mae dwy agwedd i fudd i'r cyhoedd. Y cyntaf yw deilyngdod addysgol neu artistig neu deilyngdod arall. Yr ail yw mynediad i'r cyhoedd.

Asesu ansawdd - Tystiolaeth o deilyngdod addysgol neu artistig

B15. Os yw'n amlwg bod y diben yn fuddiol i'r cyhoedd, nid oes angen i'r llys wneud unrhyw ymholiadau pellach[42]. Os mai'r diben yw hyrwyddo addysg, cymerir bod budd i'r cyhoedd oni bai fod rhywbeth i wrthbrofi'r dybiaeth honno. Os yw natur addysgol y rhodd yn cael ei chwestiynu ac nid oes modd ei ateb trwy gyfeirio at delerau'r rhodd, gall y llys [ac felly'r Comisiynwyr wrth ymarfer eu swyddogaethau[43]] geisio tystiolaeth arbenigol i wrthbrofi neu gadarnhau'r dybiaeth bod y rhodd yn elusennol, gan ei bod yn hyrwyddo addysg[44]. Os mai'r diben yw hyrwyddo celfyddyd neu fudd arall i'r cyhoedd, rhaid i'r budd i'r cyhoedd gael ei ddangos. (Yn ein harweiniad rydym yn mabwysiadu proses o fandio casgliadau er mwyn adnabod y rheiny sydd yn amlwg yn deilwng ac nid oes angen eu cwestiynu, y rheiny lle nad yw eu teilyngdod yn amlwg ond y mae modd eu pennu heb farn arbenigol a'r gweddill lle y byddai angen cael arbenigwr i gynorthwyo staff y Comisiwn). Mae celfyddyd yn cael ei hystyried mewn ffordd gynhwysol a derbyniwn y bydd yn cynnwys celfyddyd gynrychioliadol a ffigurol, haniaethol, cysyniadol a

[39] Parthed Cranstoun [1932] 1 Pennod 537

[40] Tudor 8fed argraffiad, tudalen 46.

[41] CIR v White (parthed Cymdeithas i Grefftwyr Clerkenwell Green) [1980] I.R. 155.

[42] Yn Parthed Shaw's Will Trusts [1952] 1 Pennod 163, 169.

[43] dan adran 3 Deddf Elusennau 1993.

[44] Wilberforce, J., yn y gwrandawiad cyntaf Parthed Pinion [1965] 1 Pennod 85.

pherfformiad, ar yr amod bod modd dangos bod gwaith o'r fath yn ychwanegu at ddealltwriaeth a phrofiad yr ymwelydd, neu'n gwella dealltwriaeth a phrofiad yr ymwelydd yn nhermau hyrwyddo celfyddyd er budd y cyhoedd.

B16. Os nad yw'r ansawdd yn amlwg neu'n ddirnadwy trwy ddefnyddio set o feini prawf, rhaid cael barn arbenigwr annibynnol fanwl[45]. Mae'r cwestiwn a yw rhodd yn gweithredu er budd y cyhoedd yn cael ei ateb gan y llys trwy lunio barn yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ger ei bron[46]. "Gellir cymryd bod rhodd i sefydlu amgueddfa gyhoeddus yn elusennol gan ei fod o ddefnydd i'r cyhoedd os nad yw unrhyw un yn ei gwestiynu"[47]. "Ni all y ffaith syml bod unigolyn yn gwneud rhodd o eiddo i ffurfio amgueddfa gyhoeddus bennu y **bydd** ei sefydlu [ein pwyslais ni] yn tueddu i hyrwyddo addysg mewn gwerthfawrogiad aesthetig neu unrhyw beth arall"[48].

Mynediad

B17. Fel pob elusen, rhaid i amgueddfa neu oriel gelf elusennol gael ei gweithredu er budd y cyhoedd. Rhaid i'w buddiannau fod ar gael i'r cyhoedd neu ran ddigonol o'r cyhoedd. Os yw mynediad i'r cyhoedd wedi'i gyfyngu, rydym yn edrych yn ofalus ar yr amgylchiadau er mwyn pennu beth yw gwir ddiben yr amgueddfa neu'r oriel gelf[49].

Casgliadau prifysgolion a chymdeithasau

B18. Mae safle cyfreithiol casgliadau prifysgolion a sefydliadau addysgol eraill a ddelir fel rhan o eiddo cyffredinol y sefydliad ac a ddefnyddir i hyrwyddo ei ddibenion addysgol yn wahanol i gasgliad a ddelir ar ymddiriedolaeth i fyfyrwyr a/neu staff academaidd sefydliad addysgol[50]. Ond, mae myfyrwyr a/neu staff academaidd sefydliad addysgol (y mae buddiannau'r sefydliad ar gael i ran ddigonol o'r cyhoedd) yn ffurfio rhan ddigonol o'r cyhoedd[51].

B19. Yn yr un ffordd, byddai dibenion casgliad a ddelir ar ymddiriedolaeth ar wahân er budd cymdeithas addysgol sydd ag aelodaeth ac sy'n elusen ei hun yn cael eu derbyn fel dibenion elusennol.

---

[45] Mae arbenigwyr i'w cael sydd â'r adnoddau cysyniadol i ddirnad pethau fel ffurf, patrymau, modyliadau, harmonïau, ystyron, cysylltiadau a chyfatebiaethau.

[46] Yn parthed Hummeltenberg [1923] 1 Pennod 237.

[47] Yn parthed Pinion [1965] 1 Pennod 85, 105 - Harman L.J.

[48] Yn parthed Pinion [1965] 1 Pennod 85, 108 - Harman L.J. "Rhaid ymchwilio yn gyntaf…Ni all y barnwr ymchwilio i'r mater ar ei ben ei hun, oni bai fod y mater mor amlwg ac felly nid oes angen petruso…Mae hawl ganddo gael cymorth pobl sy'n arbenigo mewn materion o'r fath, a dod i gasgliad yn seiliedig ar gymorth o'r fath".

[49] Gall darpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, pan ddeuant i rym yn llawn, fod yn gymwys. Dan y Ddeddf, rhaid i feddianwyr adeiladau y mae hawl gan aelodau'r cyhoedd gael mynediad iddynt, sicrhau bod yr adeilad ar gael i'w ddefnyddio gan bobl anabl, cyn belled ag y bo'n rhesymol.

[50] Yn yr achos olaf, mae'n bosib na fydd yr elusen wedi'i hesgusodi er bod y brifysgol neu'r sefydliad addysgol wedi'i hesgusodi.

[51] Parthed Mariette [1915] 2 Pennod 284 (gwobr llyfrau i glasuron); Parthed Gott [1944] Pennod 193 (i Brifysgol Leeds am ysgoloriaeth ôl-raddedig).

B20. Mae'n bosib i amgueddfa neu oriel gelf drosglwyddo ei buddiannau trwy strwythur aelodaeth[52]. Mae'r Comisiynwyr wedi derbyn yr egwyddor hon am sawl blwyddyn. Y prawf sy'n pennu a yw gosod strwythur aelodaeth yn dderbyniol neu beidio yw a oes angen ei osod er mwyn gweinyddu'r elusen yn well. Wrth gwrs, rhaid i'r aelodaeth fod yn agored i'r cyhoedd neu ran ddigonol o'r cyhoedd.

Amgueddfeydd a chasgliadau'r lluoedd arfog

B21. Mae amgueddfeydd a chasgliadau'r lluoedd arfog yn wahanol oherwydd gallant fod yn elusennol gan eu bod yn tueddu hybu effeithlonrwydd y lluoedd trwy feithrin teimlad o falchder / esprit de corps [ysbrydoli teyrngarwch; hybu recriwtio] a / neu hybu addysg y cyhoedd neu ddiben arall er budd y cyhoedd, er enghraifft, swyddogaeth goffa.

B22. Gall yr amgueddfeydd a'r casgliadau gael eu lleoli mewn adeiladau sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn sydd hefyd yn rhoi grantiau a gall ddarparu'r curadur ac aelodau staff eraill.

B23. Os yw'r amgueddfa neu'r casgliadau yn agored i'r cyhoedd, gellir codi tâl mynediad. Gall amgueddfeydd a chasgliadau o'r fath gael eu lleoli y tu allan i eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn a gallant fodloni dibenion addysgol ac effeithlonrwydd. Ond mae'n bosib bod yr amgueddfeydd catrodol llai wedi'u lleoli yn adeiladau'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac felly dim ond mynediad cyfyngedig, os o gwbl, sydd gan y cyhoedd. Os oes mynediad i'r cyhoedd, fel arfer fe'i cynigir ar adegau penodol neu drwy wneud apwyntiad gyda chytundeb Prif Swyddog yr uned dan sylw[53].

[52] IRC v Cymdeithas Athletau'r Heddlu Glasgow [1953] AC 380. Derbyniwyd nad yw cyfyngu buddiannau i aelodau'r heddlu yn rhwystr ynddo'i hun i gael statws cofrestredig.
[53] Os yw mynediad i'r cyhoedd wedi'i gyfyngu disgwyliwn weld tystiolaeth o hybu esprit de corps neu ryw dystiolaeth arall o hybu effeithlonrwydd y lluoedd arfog.

Nodiadau